



Cylchlythyr Mathemateg

Mis Hydref 2015



www.gwegogledd.cymru


Ysgol Eirias

Manylion cyswilt

Zoe Evans — Arweinydd Mathemateg GwE
zes@eirias.conwy.sch.uk

Bethan Cartwright — Arweinydd Mathemateg GwE
bethan.cartwright@ysgolglanclwyd.co.uk

Jo Alexander — Cynorthwydd Gweinyddol Mathemateg GwE
jar@eirias.conwy.sch.uk



Gwefan GwE

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod gwefan GwE www.gwegogledd.cymru, yn fyw. Byddwn yn defnyddio rhith-amgylchedd dysgu PISA TGAU Mathemateg fel ein prif blatfform i rannu adnoddau. Fe ddylech fod wedi cael eich canllaw i'w ddefnyddio gan Jo, sy'n esbonio cynnwys y rhith-amgylchedd mathemateg a sut i'w gyrchu.

Yr ychwanegiadau diweddaraf at y safle ydi'r cronfeydd o gwestiynau arholiad i bob haen. Mae'r rhain wedi'u trefnu yn ôl testun, gan ddilyn ein henghreffftiau o gynlluniau gwaith. Maen nhw'n cynnwys detholiad o gwestiynau arholiad a chynlluniau marcio, gan gynnwys cwestiynau dull a chyddestun o bapurau gyda chyfrifiannell a heb gyfrifiannell. Mae'r rhain wedi cynllunio fel bod defnyddwyr yn gallu dewis cwestiynau i greu eu profion a/neu eu hadnoddau eu hunain.

Mae cwestiynau i'r ychydig bynciau cyntaf wedi'u llwytho i fyny'n barod. Byddwn yn ychwanegu'r gweddill yn raddol dros yr wythnosau nesaf.

Cyfarchion gan GwE

Helo bawb,

Gobeithiwn eich bod wedi cael haf braf a dechrau esmwyth i'r flwyddyn ysgol newydd.

Gobeithiwn hefyd eich bod chi a'ch cydweithwyr yn teimlo'n ddigon parod i addysgu'r fanyleb TGAU newydd. Cysylltwch â ni os oes angen rhagor o help arnoch chi.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n trefnu'r gyfres nesaf o weithdai a fforymau sirol. Dyma'r dyddiadau a'r lleoliadau:

Gwynedd a Môn - dydd Mercher, 11 Tachwedd, Tŷ Menai, Bangor.

Wrecsam a Sir y Fflint - dydd Iau, 12 Tachwedd, Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug.

Conwy a Sir Ddinbych - dydd Mercher, 18 Tachwedd, Gwesty'r Kimmel, Abergele.

Edrychwn ymlaen at gyfarfod â chi i gyd eto a rhannu syniadau â'n gilydd.

Zoe

Gwefannau defnyddiol

www.mathsbox.org.uk Yn ogystal â'r tasgau cychwynnol, y taflenni gwaith a'r gweithgareddau parod, yn ddiweddar mae Mathsbox wedi cyflwyno nifer o nodweddion newydd, gan gynnwys Gwiriadau Sgiliau Wythnosol ac Aseidiadau Testunau. Peidiwch ag anghofio y bydd eich tansysgrifiad i Mathsbox yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd hon. Cysylltwch â Jo Alexander os oes angen eich atgoffa o fanylion mewngofnodi eich ysgol.

Mae hwb.wales.gov.uk yn cynnwys nifer o adnoddau newydd, yn benodol i fanyleb newydd CBAC. Maen nhw ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.

www.mathsmadeeasy.co.uk Mae'r adran TGAU yn cynnwys cwestiynau arholiad ar destunau penodol, wedi'u hanelu at raddau penodol.

BBC Bitesize Ar y wefan hon mae adnoddau rhyngweithiol a gweithgareddau i'r ystafelloedd ddsbarth yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Datblygiad proffesiynol

Digwyddiad Hyfforddiant Mathemateg TGAU CBAC. Yn Llandudno ddydd Gwener, 27 Tachwedd, gweler y wefan am fanylion ac i archebu'ch lle. www.mathsnoproblem.co.uk/singapore-maths-training - Sesiynau hyfforddi ardderchog ar ddull Mathemateg Singapôr. Rydym yn ei argymhell yn fawr!

Dilynwch ni ar Twitter

Rydym wedi agor cyfrif Twitter [@GwEMaths](https://twitter.com/GwEMaths) a byddwn yn ei ddefnyddio i rannu'n newyddion diweddaraf. Dilynwch ni i gael y newyddion diweddaraf am ychwanegiadau at wefan GwE, erthyglau perthnasol, adnoddau defnyddiol, a newyddion am gyfleoedd hyfforddiant. Beth am drydar? - fe fydden ni'n falch iawn o glywed gennych!



Grwpiau IRIS Connect

Rydym ni'n parhau i ddefnyddio'r system IRIS Connect yn effeithiol iawn i ystyried ein gwersi. Mae IRIS erbyn hyn wedi cyflwyno grwpiau lle gallwch rannu fideos ac adnoddau a thrafod syniadau.

Gallwch greu'ch grwpiau eich hunain i rannu arfer da am rywbeth penodol yn eich ysgol a'r tu hwnt iddi. Hefyd gallwch ymuno â grwpiau y mae nifer cynyddol partneriaid addysg IRIS wedi'u greu, i fanteisio ar eu harbenigedd nhw.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.irisconnect.co.uk/how-we-do-it/groups/

